

Rhan 2 (a)

I weithio tuag at fy Ngwobr John Muir, fe wnes i ddarganfod faint o botensial oedd yn fy ngardd, a faint mor ddiddorol oedd creu hafan diogel lle gall anifeiliaid a phryfed ffynnu. Fe wnaeth y wobr fy annog i edrych â llygaid manwl ar fy ngardd, rywbeth nid wyf wedi gwneud llawer dros y blynyddoedd diwethaf. Roeddwn wedi ceisio meddwl yn ofalus am yr hyn fyddai angen ar fywyd gwyllt i ffynnu yn fy ngardd. Wrth edrych o gwmpas fy ngardd, cefais fy synnu at yr amrywiaeth o anifeiliaid a phryfed oedd yno. Gwelais wenyn prysur a phili pala lliwgar yn ymweld a'r blodau, tra bod buchod coch gota a chwilod yn cysgodi o amgylch y lle. Roedd adar megis Robin Goch a Thitwod Tomos Las yn hedfan o amgylch yr ardd yn rheolaidd, a gwelais draenog yn symud trwy'r ardd un noswaith a wiwer un bore. Yn y pridd, gwelais fwydod a phryfed yn helpu i chwalu defnyddiau organig fel dail wedi marw. Roedd gweld cymaint o fywyd gwyllt yn fy ngardd fy hun yn gyffrous ac yn rhyfedd iawn, gan ddangos i mi sut y gall hyd yn oed mannau bach gynnal cymunedau llawn bywyd gwyllt amrywiol.

Ers dechrau edrych o gwmpas yr ardd rwyf wedi synnu yn yr amrywiaeth o anifeiliaid gwyllt sy'n byw yno, rwyf wedi dod ar draws ambell frog a yn croesi'r ardd a hyd yn oed wedi gweld llygoden fach yn yn ymddangos o'r cae tu ol y ty. Felly roedd yn brofiad pleserus i ychwanegu tuag at amgylcheddau'r anifeiliad, drwy ddarparu llawer o bethau newydd o gwmpas yr ardd i'w cefnogi.

Eisteddais tu allan yn fwy na fyddwn i fel arfer er mwyn arsylwi'r byd natur yn benodol, rhywbeth doeddwn i heb wneud o'r blaen. Roeddwn i'n lwcus iawn, iawn i weld Titw Tomos Las yn hedfan o gwmpas yr ardd, ac yna i mewn ac allan o'r ty aderyn roeddwn i wedi gosod. Dysgais fod y Titw Tomos Las yn aderyn bach clyfar sy'n dwlu ar nythu mewn mannau bach, cysgodol. Fel arfer maen nhw'n dechrau bridio yn y Gwanwyn, gan ddodwy eu hwyau mewn blychau clyd neu dyllau coed. Roedd gweld un mor agos i mi wedi fy helpu sylweddoli pa mor bwysig yw darparu lleoedd diogel i adar ddodwy wyau, a sut y gall hyd yn oed newidiadau bach yn yr ardd helpu i gefnogi bywyd gwyllt. Fe wnes i ddysgu sut i arddio'n gyfeillgar tuag at

fywyd gwyllt a bod hyn yn helpu anifeiliaid, ac hefyd yn creu ecosystem mwy cytbwys a iach yn gyffredinol. Wrth ymchwilio fe ddysgais nad oedd angen i mi dorri'r coed a'r gwair, gan fod anifeiliaid yn hoff o amgylcheddau sy'n cynnig lloches gyda digon o dyfiant. Rwy am gadw'r darn yma o dir yn yr ardd yn wyllt o hyn allan.

Roedd hefyd yn brofiad pleserus i weld gwenyn a pili palas ymhlith y lafant ac adar yn ymolchi yn y bath. Fe ddangosodd hyn i mi fod anifeiliad hefyd yn rhan bwysig o gymuned, ac yn gymuned sy'n gysylltiedig gyda'u gilydd. Mae gwenyn yn bwysig fel anifeiliaid sy'n galluogi planhigion i bolineiddio er mwyn cynnal cymuned iach o blanhigion sy'n tyfu a ffynnu.

Roedd y profiad yma wedi dyfnhau fy nealltwriaeth o bwysigrwydd cadwraeth amgylcheddol a sut y gall pawb chwarae rhan fach yn hyn.

Roedd bod yn amyneddgar wrth arsylwi natur a pharchu prosesau natur hefyd yn rhywbeth a ddysgais. Mewn byd gwaith mor brysur, roedd hwn yn hyfryd.

Hefyd, roiodd adeiladu'r hafan hon i helpu cynnal ffyniant anifeiliaid yn yr ardd ymdeimlad annisgwyl o falchder a phwrrpas i mi. Roedd yn rhywbeth roeddwn i wedi adeiladu fy hun, roedd angen i mi edrych ar ei ol drwy ychwangu dwr i'r basn dwr a dyfrio'r planhigion lafant, gan wybod fy mod yn cefnogi bywyd gwyllt i ffynnu. Roedd Gwobr John Muir yn broses llawer yn fwy na gwella'r ardd, roedd yn ffordd i mi ddechrau teimlo cysylltiad mwy parhaol â'r byd naturiol, teimlad o gyfrifoldeb at gefnogi byd natur a theimlad o fwy o ymrwymiad i gyfrannu'n bositif ato a gofalu amdano i'r dyfodol.

Er mwyn addasu fy ngardd i fod yn lle diogel i fywyd gwyllt ffynnu, ceisiais ei wneud yn lle llawn defnyddiau naturiol amrywiol. Dechreuais drwy adael yr ardal i fynd ychydig yn wyllt, gan adael i'r gwair dyfu'n hirach a dechrau casglu pentyrrau o ddail a brigau fel y gallai pryfed a draenogod ddarganfod i loches. Gosodais foncyff fel lloches bach mewn cornel gysgodol, gan wybod y byddai'n dod yn gartref i chwilod, pryfed a thrychfilod eraill ac a fyddai'n cyfoethogi'r pridd. Ychwanegais westy pryfed hefyd i ddenu amrywiaeth o bryfed buddiol eraill, gan helpu gyda pheillio o amgylch yr ardd.

I ddenu adar, fe wnes i osod dŷ adar ar y ffens ar gyfer y Titw Tomos Las, a'i osod mewn man cysgodol o dan goeden ac yng nghysgod yr haul a'r glaw. Ychwanegais fwyd addas ar gyfer aderyn tu fewn i'r ty er mwyn eu denu yno. Ychwanegais lafant i'r ardal fel bod mwy o flodau yno. Hefyd, gosodais fath i'r adar, gan roi lle i nhw yfed a glanhau eu hunain yn ddiogel. Gan gydnabod pwysigrwydd dŵr i fywyd gwyllt rwy'n dyfrio'r ardal yn aml i gadw'r tir yn ddamp ac mae hyn yn helpu denu anifeiliaid amrywiol.

Roedd ychwanegu blodau lafant i'r ardal yma yn yr ardd yn bwysig oherwydd eu bod yn denu gwenyn, pili pala a pheillwyr eraill sy'n helpu planhigion i dyfu ac atgennedlu, gan gefnogi'r ecosystem i fod yn un iachus. Mae blodau hefyd yn darparu bwyd a lloches i bryfed ac adar. Ond yn fwy na'r manteision i fywyd gwyllt, maent hefyd yn ychwanegu lliw, harddwch a gwynt hyfryd i'r ardd ac yn ychwanegu at y deimlad o dawelwch, gan wneud yr ardd yn lle mwy pleserus a chroesawgar i bawb.

Rwy wir wedi mwynhau cymryd rhan yng Ngwobr John Muir. Mae wedi bod yn brofiad gwirioneddol gadarnhaol a gwerthfawr sydd wedi dyfnhau fy nghysylltiad â natur ac wedi helpu newid y ffordd rwy'n gweld fy ngardd a gwagleoedd tu allan. Mae'r broses tu ol i'r weithred o gyfoethogi mannau bywyd gwyllt yn fy ngardd, wedi dysgu mi ymchwilio am natur. Rwy'n gwerthfawrogi nawr bod cynnal ardal mwy gwyllt ei dyfiant mewn gardd yn bwysig i anifeiliaid a bod cadw gardd heb ddim tyfiant a dim llefydd i anifeiliaid gwyllt byd natur byw ynddynt yn medru eu dinistrio. Mae adeiladu cynefin ar gyfer anifeiliaid gwyllt a byd natur, ychwanegu blodau, casglu deuyddiau naturiol fel lloches, ac yna arsylwi ymddygiad adar a dechrau clywed ac adnabod synnau gwahanol adar, gwenyn a phryfed wedi rhoi teimlad da i mi. Rwyf erbyn hyn yn gwerthfawrogi bod gwarchod ardaloedd gwyllt yn yr ardd yn hanfodol gan fod llwythi o anifeiliaid yn byw yno.

Mae'r profiad hwn wedi cael effaith arnaf i'n bersonol. Mae treulio mwy o amser yn yr awyr agored wedi cefnogi fy lles meddyliol. Pan yn teimlo ychydig o straen neu ofid am rywbeth mae bod tu allan yn dyfrio planhigion ac ychwanegu dwr i'r bath adar a

chael pip i weld pa adar sydd o gwmpas a gweld bod rhai yn dechrau dychwelyd dro ar ol tro yn fy helpu i feddwl am rywbeth arall mwy pwysig, i wreiddio fi ac i helpu fi meddwl yn glir. Mae fy nheulu wrth eu bodd i weld yr ardal yma, a bob tro mae fy nhadcu yn galw mae'r ddau ohonom ni'n mynd yn syth i'r ardd er mwyn cael pip a chael sgwrs am y byd natur yn yr hafan rwy wedi ei greu.

Rwyf, yn sicr, wedi magu hyder yn fy ngallu i ofalu am yr ardd a'r amgylchedd ac yn teimlo'n frwdfrydig i barhau i ddysgu am natur a chynaliadwyedd. Rwyf wedi creu lle cyn hafan yn yr ardd ar fy mhen fy hun, ac rwy'n falch o hynny. Rwy wedi ymchwilo, darganfod deunyddiau wedi eu hailgylchu a chreu ambell strwythur o ddeunyddiau oedd yn bodoli'n barod.

Wrth symud ymlaen, rwy'n bwriadu parhau i ofalu am fy ngardd a chefnogi bywyd gwyllt a rhannu'r hyn rwyf wedi'i ddysgu gydag eraill. Rwy'n gobeithio ysbrydoli ffrindiau a theulu i greu eu mannau eu hunain sy'n gyfeillgar i natur. Rwy'n gweld hyn yn digwydd yn barod gyda fy Mamgu a Thadcu wrth fod nhw hefyd yn dechrau ychwanegu elfennau bach, megis hen botiau, i'w gardd er mwyn creu cysgod ac am adael i ran o'r ardd fynd yn fwy gwyllt er mwyn cefnogi bywyd gwyllt.

Rhan 2 (b)

Mae Gwobr John Muir yn cyd-fynd â damcaniaethau sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar gan ei fod yn canolbwyntio ar ddysgu ymarferol, gwerthfawr o fewn amgylcheddau naturiol. Mae Gwobr John Muir yn cysylltu'n agos â

damcaniaeth adeiladol Piaget, sy'n awgrymu bod plant yn derbyn profiadau dysgu buddiol drwy ddarganfod a profiadau ymarferol (Piaget, 1951 yn Sjoberg, 2010). Mae ymgysylltu â natur drwy weithgareddau fel creu cynefinoedd neu arsylwi bywyd gwyllt yn caniatáu i blant ddatblygu sgiliau gwybyddol (Giusti *et. al.*, 2018). Mae'r wobwr yn cynnig y cyfle i bobl o bobolddran ddarganfod pethau newydd a chwarae rhan yng nghadwraeth bywyd gwyllt.

Yn yr un modd, mae damcaniaeth gymdeithasol ddiwylliannol Vygotsky yn canolbwyntio ar bwysigrwydd rhyngweithio cymdeithasol a sgaffaldio o fewn dysgu (Vygotsky, 1978). Roedd Gwobr John Muir yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol lle byddai oedolion yn gallu cefnogi darganfyddiadau plant, gan annog deialog, cwestiynu, a datrys problemau sy'n datblygu ffordd o feddwl plant. Roedd y Wobr yn cynnwys llawer o waith ymarferol. Mae hyn yn hynod bwysig o fewn addysg blynyddoedd cynnar oherwydd ei fod yn cynnig profiadau unigryw a newydd i blant (Gilbertson *et. al.*, 2022).

Yn ngyd-destun addysgeg, mae'r Wobr yn adlewyrchu egwyddorion dysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn a chwricwlwm. Mae'n gwerthfawrogi diddordebau plant ac yn cynnig profiadau ystyrllon. Mae cwricwlwm sy'n seiliedig ar dysgu drwy chwarae yn cysylltu'n gryf â'r wobwr, gan ei fod yn cynnig y cyfle i blant arsylwi a darganfod (Gurholt a Sanderud, 2016). Gall y wobwr ei gysylltu â gwerth chwarae yn yr awyr agored a cyfarwyddo plant â chyd-destunau bywyd go iawn (Bento a Dias, 2017). Mae cymryd rhan yn Gwobr John Muir yn annog ymarferwyr i alluogi ei disgyblion i arsylwi, ymchwilio a myfyrio ar y byd naturiol, gan feithrin sgiliau chwilfrydedd ac asiantaeth (Geuens *et. al.*, 2024).

Mae ymarfer blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel a caniatáu i blant ddilyn eu diddordebau o fewn amgylcheddau buddiol yn sicrhau addysg gwerthfawr (Bento a Dias, 2017). Mae gosod cyfrifoldeb ar blant i gyflawni tasgau cadwraeth a'u hannog i fod yn annibynol a darganfod cynefinoedd newydd yn datblygu sgil datrys problemau (Chawla, 2015). Mae'r Wobr yn annog i ymarferwyr i sicrhau bod dysgu'n berthnasol, yn ddilys, ac yn hynod ddiddorol.

Mae Gwobr John Muir hefyd yn cefnogi datblygiad cyfannol, un o brif nodau addysgeg blynyddoedd cynnar yw i feithrin twf emosiynol, cymdeithasol, corfforol a gwybyddol. Mae profiadau awyr agored yn gwella lles, yn lleihau straen, ac yn datblygu gwydnwch emosiynol (Kiviranta *et. al.*, 2024). Mae annog plant i ofalu am fywyd gwyllt neu arsylwi newidiadau tymhorol yn meithrin empathi a stiwardiaeth amgylcheddol (Golubovic a Mikaric, 2023). Mae rhain yn sylfaenau hanfodol ar gyfer datblygu gwerthoedd cymdeithasol. Mae annog plant i weithio ar brosiectau gyda'u gilydd yn cryfhau cyfathrebu a chydweithio, ac mae'r Wobr yn cefnogi sgiliau moesegol a hyder trwy ddarganfod pethau amrywiol. Mae gweithgareddau megis gofal planhigion neu creu gwestai pryfed yn galluogi plant ddeall pwysigrwydd bywyd gwyllt (Bento a Dias, 2017).

Mae cymryd rhan yng Ngwobr John Muir yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer meddwl creadigol drwy ddarparu dysgwyr â phrofiadau agored, sy'n seiliedig ar natur. Mae amgylcheddau awyr agored yn darparu ysgogiadau cyfoethog ac amrywiol sy'n sbarduno ymdeimlad o chwilfrydedd a dychymyg. Mae hyn yn annog plant i gynhyrchu syniadau, datrys problemau, a mynegi eu hunain mewn ffyrdd newydd (Veiga *et. al.*, 2020). Mae gweithgareddau fel dylunio gwestai pryfed, cynllunio cynefinoedd bywyd gwyllt, neu dogfennu arsylwadau drwy gelf yn hybu meddwl dargyfeiriol, sy'n elfen allweddol o fod yn greadigol (Fermin *et. al.*, 2024).

Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwyedd (ADC) a Gwobr John Muir yn gysylltiedig oherwydd eu bod y ddau yn anelu tuag at ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r amgylchedd naturiol, a'u cyfrifoldebau amdano (Beery *et. al.*, 2020). Mae ADC yn annog dysgwyr o bob oed i ddysgu'r gwybodaeth, sgiliau, gwerthoedd a'r agweddau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau gwybodus ar gyfer yr amgylchedd, economi, a'r chymdeithas. Mae'n datblygu sgiliau meddwl beirniadol, datrys problemau, a chyfranogiad mewn cyd-destunau byd go iawn (Capaldi a Passmore, 2015).

Mae cymryd rhan yng Ngwobr John Muir yn cynnig amser gwerthfawr ar gyfer myfyrio, sy'n elfen allweddol o ddysgu ystyrlon. Mae ymarfer myfyriol yn caniatáu i blant a ymarferwyr feddwl yn ddwfn am eu profiadau a gwneud synnwyr o'r hyn maent wedi arsylwi. Mae'n galluogi unigolion gysylltu gwybodaeth newydd â'r hyn

maent yn gwybod yn barod (Tippins *et. al.*, 2015). Pan mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored fel archwilio cynefinoedd neu greu llochesi bywyd gwyllt, maent yn cael eu hannog i ystyried eu rôl wrth ofalu am natur (Veiga *et. al.*, 2020). Mae'r myfyrio strwythuredig hwn yn cefnogi datblygiad meddwl beirniadol a chyfrifoldeb personol, gan helpu ymarferwyr a phlant i ddeall effaith eu gweithredoedd ar yr amgylchedd (Shtulman *et. al.*, 2023).

Er bod Gwobr John Muir yn cynnig llawer o fuddion gwahanol i'r amgylchedd gall hefyd wneud mwy. Nid yw'r wobr yn gwneud effaith enfawr ar yr amgylchedd gan ei fod yn annog y cyfranogwyr i wneud gwahaniaeth bach yn lle un mawr. Dylai annog cyfranwyr i geisio gwneud gwahaniaeth mawr i'r byd trwy ei annog i ddarganfod ardaloedd sydd wir angen gwelliannau ac addasiadau. Mae hyn yn cynnig ffordd i bobl weithio mewn tîm a gwneud rhywbeth ar raddfa llawer yn fwy. Byddai sgiliau megis datrys problemau a meddwl beirniadol yn cael ei datblygu llawer mwy wrth wneud hyn (Gilbertson *et. al.*, 2022).

Mae'r wobr yn alinio ag egwyddorion Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwyedd a Dinasyddiaeth Fyd-eang oherwydd ei fod yn annog cyfranogi i wella dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a chymryd cyfrifoldeb am yr amgylchedd naturiol. Mae'r wobr yn ymwneud a'r egwyddorion yma gan eu bod yn datblygu gwybodaeth, datblygu gwerthoedd ac agweddau sy'n helpu dysgwyr i gyfrannu at fyd mwy cynaliadwy a chyfiawn (Prince, 2017). Mae'r Wobr yn gofyn i bobl gymryd camau ymarferol i ofalu am natur, gan feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb. Mae hyn yn helpu cyfranogwyr i weld eu hunain fel dinasyddion gweithredol a all wneud newidiadau cadarnhaol yn eu cymunedau (Dehdar *et. al.*, 2019). Felly ar y cyfan mae'r wobr yn gefnogol iawn wrth geisio sicrhau meddwl beirniadol ac adfyfyrio.

Mae Gwobr John Muir wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn gweithredu ymarferol, gan ei wneud yn ffordd effeithiol o gyflawni addysg effeithiol ar gyfer Datblygu Cynaliadwyedd a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF), Deddf Llesiant Dyfodol Cymru (2015), a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae prif bwyntiau'r Wobr yn cynnwys darganfod, archwilio, gwarchod a rhannu, mae hyn yn ei wneud yn ofynnol i gyfranogwyr ddysgu am natur ac i gymryd rhan gweithredol yng nghadwraeth. Mae'n ffocysu ar weithredu ymarferol sy'n sicrhau bod cyfranogwyr

dangos ymwybyddiaeth i stiwardiaeth ymarferol go iawn, plannu blodau, creu cynefinoedd bywyd gwyllt, cael gwared ar sbwriel, neu monitro'r cynefin. Mae gweithgareddau o'r fath yn cefnogi pwyslais ADCDF â addysg sy'n rhoi pŵer i ddysgwyr gwneud newidiadau ystyrlon yn eu hamgylcheddau a'u cymdeithasau (Gilbertson *et. al.*, 2022).

Mae Gwobr John Muir hefyd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol, sy'n nodi nodau pwysig yn Nghymru, gan gynnwys Cymru Cydnerth, Cymru Iachach, a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang. Drwy gynnwys pobl mewn cadwraeth natur, mae'r Wobr yn cyfrannu at hybu gwytnwch ecolegol, gan wella bioamrywiaeth a pwysleisio ar gwella ardaloedd lleol (Neumann, 2015). Mae cyfranogwyr yn dysgu bod prosiectau ar raddfa fach, fel creu cynefinoedd i beillwyr neu amddiffyn coetiroedd, yn rhan o ymdrechion ehangach i gynnal ecosystemau iach (Amel *et. al.*, 2017). Mae'r ffocws ar brofiadau awyr agored hefyd yn hyrwyddo gweithgaredd corfforol, lles meddyliol, a chysylltiad â natur, gan gefnogi Cymru Iachach. Hefyd mae'r Wobr yn gosod cyfrifoldeb ac un meithrin gwerth ardaloedd allanol, drwy annog cyfranogwyr i ddeall eu rôl wrth ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (Morrow, 2015).

Mae'r Wobr yn cefnogi nifer o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn anelu at amddiffyn, adfer a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ecosystemau daearol ac atal dinistrio bioamrywiaeth (Morrow, 2015). Mae gweithredoedd cadwraeth y Wobr yn cyfranu tuag at blannu rhywogaethau brodorol, lleihau gwastraff, neu adfer cynefinoedd. Nod Datblygu Cynaliadwy arall mae'r Gwobr yn cefnogi yw, targedi addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy, trwy ddarparu dysgu profiadol. Mae hefyd yn hybu pobl i gymryd camau gwybodus a chyfrifol dros yr amgylchedd. Mae'n hyrwyddo annogaeth amser yn yr awyr agored, ac yn cysylltu â iechyd corfforol a meddyliol gwell (Kondo *et. al.*, 2018).

Er bod Gwobr John Muir yn cynnig cyfleoedd pŵerus ar gyfer gweithredu ymarferol sy'n cyd-fynd â'r fframweithiau hyn, mae ei heffaith yn dibynnu ar ba mor effeithiol y caiff ei weithredu. Er mwyn cynyddu ei gwerth i'r eithaf ar gyfer ADCDF, y Ddeddf Llesiant, a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, mae angen i addysgwyr sicrhau bod

gweithgareddau'n ystyrion, yn berthnasol, ac yn gysylltiedig â myfyrio ar heriau byd-eang (Gunstone, 2015). Pan gaiff ei weithredu'n yn effeithiol, mae'r Wobr yn fodel rhagorol ar gyfer addysg sy'n cyfuno dysgu a byd mwy cynaliadwy a chyfartal.

Er bod Gwobr John Muir yn cael ei chanmol am hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol a chadwraeth ymarferol, mae rhai heriau a meysydd y gellir ei wella. Un mater allweddol yw'r gallu i gymryd rhan, er bod y Wobr wedi'i chynllunio i fod yn gynhwysol, gall rhwystrau megis cludiant i leoedd gwyllt a cost offer ar gyfer gwelliannau. Un pwynt gwan arall yw bod y Wobr yn annog pobl i wneud gwahaniaeth ar raddfa bach, yn hytrach na annog i bobl gweithio mewn grwp a gwneud gwahaniaeth ar raddfa mawr. Mae'r Wobr yn canolbwyntio ar gwneud gwahaniaeth ar raddfa llai megis plannu planhigion a choed, yn hytrach na dysgu cyfranogwyr am newid hinsawdd a'i annog i brotestio yn erbyn arfer diwyllianol.

Mae'r Wobr yn dibynnu ar addysgwyr i arwain dysgu myfyriol, mae risg y bydd gweithgareddau'n arwain tuag at arferion ticio blychau, lle dylai fod yn cynnig addysgu ystyrion (Gunstone, 2015). Gall hyn leihau ei heffaith hir dymor ar agweddau am chadwraeth y byd natur. Mae'r y Wobr yn llwyddo i hyrwyddo cadwraeth, mae dadl ynghylch a yw'n mynd i'r afael yn ddigonol ag agweddau diwylliannol a hanesyddol defnydd tir. Mae cyfle i addysgu cyfranogwyr am sut i ddefnyddio tir yn effeithiol i gefnogi cadwraeth a gofl am y byd natur (Restovic a Bulic, 2024).

Er bod Gwobr John Muir yn fodd rhagorol ar gyfer addysg amgylcheddol a gweithredu cadwraeth, mae beirniadaeth ddilys ei bod yn gallu canolbwyntio'n ormodol ar rhannau bach o welliannau yn hytrach na dinasyddiaeth ehangach. Mae ei strwythur pedair rhan sef Darganfod, Archwilio, Gwarchod, Rhannu yn pwysleisio'n gryf ar gyfoethogi lleoedd gwyllt a gofalu amdano. Mae'r ffocws amgylcheddol hwn yn werthfawr. Ond mae addysg ar ddatblygu ymarfer cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang hefyd yn cynnwys cyfiawnder cymdeithasol, ecwiti economaidd, dealltwriaeth ddiwylliannol, a democratiaeth gyfranogol (Edelblutte *et. al.*, 2023).

Yn aml, mae cyfranogwyr y Wobr yn cymryd rhan ym mhrosiectau cadwraeth, ymarferol, fel adfer cynefinoedd neu gasglu sbwriel, ond efallai na fyddant bob amser yn archwilio'r ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sylfaenol sy'n arwain at ddirywiad amgylcheddol. Heb drafodaeth feirniadol am bynciau fel defnyddwraeth, anghydraddoldeb byd-eang, cyfiawnder hinsawdd, neu hawliau tir cynhenid, mae risg o feithrin golwg syml ar gynaliadwyedd fel gofalu am natur yn unig (Clayton a Myers, 2015).

Rhestr Cyfeirnod

Amel, E., Manning, C., Scott, B. and Koger, S., 2017. Beyond the roots of human inaction: Fostering collective effort toward ecosystem conservation. *Science*, 356(6335), pp.275-279. Ar gael: <https://jameslitsinger.wordpress.com/wp-content/uploads/2020/09/amel-beyond-roots.pdf> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Beery, T., Chawla, L. and Levin, P., 2020. Being and becoming in nature: Defining and measuring connection to nature in young children. *International Journal of Early*

Childhood Environmental Education, 7(3), pp.3-22. Ar gael:
<https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1264523.pdf> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Bento, G. and Dias, G., 2017. The importance of outdoor play for young children's healthy development. *Porto biomedical journal*, 2(5), pp.157-160. Ar gael:
<https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2444866416301234> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Cahiers internationaux de sociologie, 10, pp.34-49. (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Capaldi, C.A., Passmore, H.A., Nisbet, E.K., Zelenski, J.M. and Dopko, R.L., 2015. Flourishing in nature: A review of the benefits of connecting with nature and its application as a wellbeing intervention. *International Journal of Wellbeing*, 5(4). Ar gael:
<http://www.internationaljournalofwellbeing.org/index.php/ijow/article/download/449/509> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Chawla, L., 2015. Benefits of nature contact for children. *Journal of planning literature*, 30(4), pp.433-452. Ar gael:
https://outdoorrecreation.wi.gov/Documents/Research%20Library%20Page%20files/US%20-%20Benefits/Benefits-of-Nature-Contact-for-Children_2015.pdf (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Dehdar, M., Sayegani, L., Arbab, E., Arzhandeh, M., Roshanray, M., Raeisi, A. and Kuhi, L., 2019. Role of schools in educating the active citizen. *Journal of Social Sciences and Humanities Research*, 7(02). Ar gael:
<http://uctjournals.com/archive/ujsshr/2019/March/2.pdf> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Fermin, C., Perez, M., Obee, A.F. and Hart, K.C., 2024. Benefits of time spent outdoors in early childhood education: A systematic review. *FIU Undergraduate Research Journal*, 2(1), p.6. Ar gael:
<https://digitalcommons.fiu.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1033&context=undergraduate-journal> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Geuens, N., Willockx, D. and Janssen, J., 2024. Exploring the power of natural outdoor spaces in enhancing early childhood practitioners' wellbeing. *Journal of Outdoor and Environmental Education*, pp.1-16. Ar gael:
<https://link.springer.com/content/pdf/10.1007/s42322-024-00176-2.pdf> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Gilbertson, K., Ewert, A., Siklander, P. and Bates, T., 2022. *Outdoor education: Methods and strategies*. Human Kinetics. Ar gael:
https://books.google.com/books?hl=en&lr=&id=QatJEAAQBAJ&oi=fnd&pg=PP1&dq=outdoor+opportunities+in+education&ots=y7_IRUGycD&sig=x-Ht_oqqplztkAycnsMotPdWw8 (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Giusti, M., Svane, U., Raymond, C.M. and Beery, T.H., 2018. A framework to assess where and how children connect to nature. *Frontiers in psychology*, 8, p.2283. Ar gael: <https://www.frontiersin.org/articles/10.3389/fpsyg.2017.02283/pdf> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Golubović-Ilić, I. and Mikarić, B., 2023. The importance of outdoor learning at early ages. *SCIENCE International Journal*, 2(3), pp.123-128. Ar gael: <https://www.academia.edu/download/107346949/43.pdf> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Gunstone, R., 2015. Meaningful learning. *Encyclopedia of Science Education*, 1007(978), pp.626-685. Ar gael: https://www.researchgate.net/profile/Richard-Gunstone/publication/302567262_Meaningful_Learning/links/573f825f08ae9f741b322038/Meaningful-Learning.pdf (Defnyddio 13 Gorffennaf 2025)

Gurholt, K.P. and Sanderud, J.R., 2016. Curious play: Children's exploration of nature. *Journal of Adventure Education and Outdoor Learning*, 16(4), pp.318-329. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/14729679.2016.1162183> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Kiviranta, L., Lindfors, E., Rönkkö, M.L. and Luukka, E., 2024. Outdoor learning in early childhood education: exploring benefits and challenges. *Educational Research*, 66(1), pp.102-119. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/00131881.2023.2285762> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Kondo, M.C., Jacoby, S.F. and South, E.C., 2018. Does spending time outdoors reduce stress? A review of real-time stress response to outdoor environments. *Health & place*, 51, pp.136-150. Ar gael: <https://research.fs.usda.gov/treearch/download/55929.pdf> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Morrow, K., 2015. Of human responsibility: considering the human/environment relationship and ecosystems in the Anthropocene. *Science*, 347(6223). Ar gael: <https://core.ac.uk/download/pdf/96640716.pdf> (Defnyddio 11 Mehefin 2025)

Neumann, R.P., 2015. Nature conservation. In *The Routledge handbook of political ecology* (pp. 391-405). Routledge. Ar gael: <https://api.taylorfrancis.com/content/chapters/edit/download?identifierName=doi&identifierValue=10.4324/9781315759289-37&type=chapterpdf> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Piaget, J., 1951. *Egocentric thinking and sociocentric thinking*, Prince, H.E., 2017. Outdoor experiences and sustainability. *Journal of adventure education and outdoor learning*, 17(2), pp.161-171. Ar gael: http://insight.cumbria.ac.uk/id/eprint/2537/1/Outdoor_experiences_and_sustainability%20FINAL%20September2016.pdf (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Restović, I. and Bulic, M., 2024. Based Learning About Nature Conservation Influences Students' Attitudes and Knowledge. *Education sciences*, 14(12), p.1410. Ar gael: <https://www.mdpi.com/2227-7102/14/12/1410> (Defnyddio 13 Gorffennaf 2025)

Shtulman, A. and Young, A.G., 2023. The development of cognitive reflection. *Child Development Perspectives*, 17(1), pp.59-66. Ar gael: <https://srcd.onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1111/cdep.12476> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Sjøberg, S., 2010. Constructivism and learning. *International encyclopedia of education*, 5, pp.485-490. Ar gael: https://d1wqtxts1xzle7.cloudfront.net/96413330/Constructivism_and_learning_Sjoberg-libre.pdf?1672132010=&response-content-disposition=inline%3B+filename%3DConstructivism_and_Learning.pdf&Expires=1752242491&Signature=RmpB51~Sx3MxCi3bQTo~agjsjftiRyQc2mj1YPusyps9~25STU864PULzxiwzAi9Q3ebPIWNNUTqvbzeSU0Kf4UcEqYFHuEhl9pxtCEelguG2lyYoYIFie-vylNljw5gPIP9QG9y1JlvxbC-Weq36RqZss5v-XBHi4TPX-CUSjTaq5unprelBbjl0a9PB3R2in2BH6qFzAEqlrQcaRg-2TV0jPhzii0UpSLFEM372en8EmwfDjewQQtg6bFQfz9KD5m4KQN9315-DwB1rUJ2RPSa3oVxlj3-vXZy2UH0W2~p8zMNPfr2NP44ONvRW8iKTRU8kk9rvOi0cFa~deYYA_&Key-Pair-Id=APKAJLOHF5GGSLRBV4ZA (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Tippins, D.J., Neuharth-Pritchett, S. and Mitchell, D., 2015. Connecting young children with the natural world: Past, present and future landscapes. In *Research in early childhood science education* (pp. 279-297). Dordrecht: Springer Netherlands. Ar gael: https://link.springer.com/chapter/10.1007/978-94-017-9505-0_13 (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

UK Government (2015) *Well Being of Future Generations Act*. Ar gael: <https://www.google.com/url?sa=t&source=web&rct=j&opi=89978449&url=https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents&ved=2ahUKEwjU7ZSkubWOAxVfXUEAHXNol6gQFnoECBcQAQ&usg=AOvVaw2HP7I9tjdML5fTyIPRjztm> (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Veiga, G., Marmeleira, J., Laranjo, L. and Almeida, G., 2020. The Importance of Outdoor Practices for Children's Health and Development and for the Community. Ar gael: https://dspace.uevora.pt/rdpc/bitstream/10174/29742/1/The%20Importance%20of%20Outdoor%20Practices%20for%20Children%27s%20Health%20and%20Development%20and%20for%20the%20Community_Veiga%20et%20al.pdf (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)

Vygotsky, L.S., 1978. *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press (Defnyddio 11 Gorffennaf 2025)